OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 259 (Cy.25)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud - -	*8 Chwefror 2005*
Yn dod i rym - -	*1 Mawrth 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(a) ac (f), 17(1), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**), ar ôl rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac ar ôl ymgynghori yn unol ag Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 o Senedd Ewrop a'r Cyngor(**3**) sy'n pennu egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd, ac yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. O ran y Rheoliadau hyn—

(a) eu henw yw Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2005;

(b) deuant i rym ar 1 Mawrth 2005; ac

(c) maent yn gymwys o ran Cymru yn unig.

Diwygio Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995

2. Diwygir Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995(**4**) yn unol â rheoliadau 3 a 4 isod.

3. Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli), yn y diffiniad o "Directive 96/77/EC", yn lle'r geiriau "and Commission Directive 2002/82/EC", rhodder y geiriau a ganlyn—

(**1**) 1990 p.16.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "*the Secretary of State*" i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28).

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1.

(**4**) O.S. 1995/3187, a ddiwygiwyd gan O.S. 1997/1413, O.S.1999/1133, O.S. 2001/1440 (Cy.102), O.S. 2001/1787 (Cy.128), O.S. 2001/2679 (Cy.220), O.S. 2001/3909 (Cy.321), O.S. 2002/329 (Cy.42), O.S. 2002/330 (Cy.43), O.S. 2003/945 (Cy.126), O.S. 2003/3037 (Cy.285), O.S. 2003/3041 (Cy.286), O.S. 2003/3044 (Cy.288), O.S. 2003/3047 (Cy.290), O.S. 2003/3053 (Cy.291), O.S. 2004/553 (Cy.56) ac O.S. 2004/554 (Cy.57).